# Meddygfa Newydd Stryd y Capel




## Meddygon

**Dr J Ryder**
MB BCh (Cymru 2002) MRCGP (2007)
Uwch Bartner – Gwryw

**Dr S Abraham**
MBBS (India 2006) DCH MRCGP (2018)
Partner Meddyg Teulu – Benyw

**Dr S Jones**
BSc (Hons 2004) MBBCh (Wales 2009)
MRCGP (2017)
Partner Meddyg Teulu – Benyw

**Dr W Gafar**
MBBS (Sudan 2012) MRCGP (2022)
Meddyg Teulu - Benyw

## Rheolwr Meddygfa

Mrs Denise Jones

## Nyrsys Meddygfa

Mrs Carol Dyke (RGNI&II)
Mrs Hannah Hubbard-Miles (RGNII)

## Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd

Mrs Sophie Morgan-Taa

## Amseroedd Agor

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 8:00am – 6:30pm |
| Dydd Mawrth | 8:00am – 6:30pm |
| Dydd Mercher | 8:00am – 6:30pm |
| Dydd Iau | 8:00am – 6:30pm |
| Dydd Gwener | 8:00am – 6:30pm |
| Dydd Sadwrn | Ar gau |
| Dydd Sul | Ar gau |

## Cysylltu â ni

Oddi ar Stryd Harold,
Pontnewydd,
Cwmbrân
NP44 1DU
Ffôn - **01633 485 155**
E-bost: **enquiries.w93026@wales.nhs.uk**

**www.newchapelstreet.gpsurgery.net**

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r nos, ar benwythnosau neu ar Ŵyliau'r Banc, cysylltwch â **Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Gwent ar 111**

**Ffoniwch 111**
Mewn achos BRYS sydd ddim yn bygwth bywyd

**Phone 111**
When it's URGENT but not life threatening

## Apwyntiadau Difrys

Mae'r feddygfa yn gweithredu system apwyntiadau yn ystod oriau meddygfa arferol. Cewch drefnu apwyntiad naill ai dros y ffôn neu drwy siarad â'r dderbynfa. Gallwch drefnu apwyntiadau difrys, gyda meddyg o'ch dewis, hyd at bythefnos o'r dyddiad archebu (hynny yw, os yw'r meddyg hwnnw ar gael). Cofiwch fod **apwyntiadau'n para 10 munud** ac mae'n afrealistig ceisio rheoli nifer o broblemau mewn un apwyntiad. Os oes angen i chi drafod problemau lluosog, mae'n bosibl bydd angen i chi drefnu apwyntiad arall. Sylwch, os ydych yn cyrraedd mwy na 5 munud yn hwyr ar gyfer eich apwyntiad, bydd angen i chi aildrefnu apwyntiad ar ddiwrnod arall.

## Apwyntiadau Brys

Os ydych yn teimlo bod problem brys gennych, ac mae angen i chi gael eich gweld y diwrnod hwnnw, rhowch wybod i'r derbynnydd wrth ffonio. Rydym yn delio ag apwyntiadau brys bob bore, **felly ffoniwch cyn 10:30 am**. Os oes angen apwyntiad arnoch yr un diwrnod, bydd y derbynnydd yn gofyn am wybodaeth sylfaenol am eich problem er mwyn i'r meddyg weld yr achosion mwyaf brys yn gyntaf. Wedyn, byddwch yn cael amser i ddod i'r feddygfa y bore hwnnw, ond oherwydd natur achosion meddygol brys, mae'n bosibl bydd angen i chi aros i gael eich gweld. Gydag achosion brys, dyw hi ddim yn bosibl i ni warantu y byddwch yn gweld y meddyg o'ch dewis.

## Canslo Apwyntiadau

Os nad ydych yn gallu dod i'ch apwyntiad, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl er mwyn i ni ei gynnig i glaf arall.

## Ceisiadau Presgripsiwn

Mae'n ddrwg gennym **nad ydym yn gallu** derbyn ceisiadau presgripsiwn dros y ffôn. Sicrhewch eich bod yn marcio'r eitemau rydych yn gofyn amdanynt yn glir trwy osod tic wrth y feddyginiaeth briodol ar y ffurflen gais amlroddadwy, neu archebu ar-lein. Er mwyn i ni brosesu'r nifer mawr o geisiadau bob dydd, sylwch fod angen **48 awr o rybudd** ar gyfer archebu presgripsiynau amlroddadwy. Os ydych angen presgripsiwn ar gyfer y penwythnos, sicrhewch eich bod yn ei archebu erbyn dydd Mercher a'i gasglu cyn i'r feddygfa gau ar nos Wener.

## Ymweliadau Cartref

Mae ymweliadau cartref ar gyfer pobl oedrannus iawn, pobl eiddil a phobl nad ydynt yn gallu gadael y tŷ **yn unig**, ac yn seiliedig ar angen clinigol yn ôl disgresiwn y meddyg. Os ydych yn teimlo bod angen ymweliad cartref arnoch, cysylltwch â'r dderbynfa **cyn gynted â phosibl** yn ystod sesiwn y bore. Mae'n bosibl y bydd y meddyg yn eich ffonio'n ôl am fwy o wybodaeth. Rydym yn disgwyl i chi ddod â phlant i'r feddygfa lle byddant yn cael eu gweld yn gyflym a'u harchwilio yn y lleoliad mwyaf priodol. Nid yw diffyg trafnidiaeth neu anghyfleustra arall yn rheswm dilys i ofyn am ymweliad catref. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y byddwch yn cael cynnig apwyntiad yn y feddygfa ar fyr rybudd, os yn briodol.

## Clinigau a Gwasanaethau sydd ar gael

Gwasanaethau atal cenhedlu, imiwneiddio plant, goruchwylio iechyd plant, brechiadau ac imiwneiddiadau, mân salwch, mân lawdriniaeth, monitro warffarin INR, sbirometreg, ECG, gwaedu, rheoli cyflyrau hirdymor, e.e. asthma, diabetes, pwysedd gwaed uchel, epilepsi, clefyd y galon a COPD, clinig cynenedigol, cwnselwr meddygfa, clinig sytoleg (prawf ceg y groth), cyngor am frechiadau teithio, gwasanaethau nad ydynt yn rhan o'r GIG lle codi ffi, e.e. profion meddygol ar gyfer gyrru cerbydau HGV, adroddiadau yswiriant ac ati. (Gwelwch y wefan am fanylion pellach.)

## Ardal y Feddygfa

Cewch gofrestru gyda'r feddygfa hon os ydych yn byw yn ardal **Cwmbrân**.  Gwelwch y map manwl sydd ar ein gwefan. Os ydych yn symud tu allan i ardal y feddygfa, dylech gofrestru gyda meddygfa wahanol.

Os ydych am gofrestru gyda ni, dewch i mewn i'r feddygfa a chwblhau'r ffurflenni cofrestru perthnasol.

## Hawliau a Chyfrifoldebau Cleifion

Mae gan gleifion **hawl** i:

- Gael eu cofrestru gyda Meddyg Teulu
- Newid meddyg os ydynt yn dymuno
- Cael cynnig gwiriad iechyd wrth ymuno â'r feddygfa
- Derbyn gofal brys unrhyw bryd gan y feddygfa
- Derbyn cyffuriau a meddyginiaethau priodol
- Cael eu cyfeirio am farn arbenigol neu ail farn os ydyn nhw neu'r Meddyg Teulu yn cytuno
- Gweld eu cofnodion meddygol, yn amodol ar y Deddfau, a gwybod bod y rhai sy'n gweithio i'r GIG dan rwymedigaethau cyfreithiol i gadw cynnwys y cofnodion hynny'n gyfrinachol.

Hefyd, mae gan gleifion **gyfrifoldeb** i:

- Fod yn gwrtais i'r staff ar bob adeg – cofiwch eu bod ond yn dilyn cyfarwyddiadau'r meddyg
- Ymateb mewn modd cadarnhaol i gwestiynau gan staff derbynfa
- Mynychu apwyntiadau ar amser neu roi gwybod i'r feddygfa mewn da bryd os ydynt yn dymuno canslo. Gallai rhywun arall ddefnyddio'ch apwyntiad!
- Mae apwyntiad ar gyfer **un** person unig – lle bydd angen i aelod arall o'r teulu gael ei weld neu ei drafod, dylech wneud apwyntiad arall lle bydd y cofnod meddygol priodol ar gael.
- Dylai cleifion wneud pob ymdrech wrth gysylltu â'r feddygfa i wneud y defnydd gorau o amser nyrsio a meddygol - dylai ymweliadau cartref gael eu cyfiawnhau gan reswm meddygol, ac nid oherwydd cyfleustra cymdeithasol yn unig.
- Rydym yn gofyn i gleifion roi gwybod i ni 48 awr ymlaen llaw ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy er mwyn i ni brosesu'ch cais yn gywir.
- Dylai galwadau tu allan i oriau (e.e. gyda'r hwyr, yn ystod y nos a phenwythnosau) fod yn gwbl hanfodol yn unig.

Mae mwy o fanylion yn y daflen **Siarter Cleifion** sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy ofyn i'n staff derbynfa.

## Cyfrinachedd Cleifion

Rydym yn parchu'ch hawl i breifatrwydd ac i gadw'ch holl wybodaeth iechyd yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae'n bwysig bod y GIG yn cadw cofnodion cywir a chyfredol am eich iechyd a'ch triniaeth er mwyn i'r rhai sy'n eich trin roi'r gofal gorau posibl i chi.

Bydd holl wybodaeth cleifion yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Mae mynediad i'r holl gofnodion yn cael ei gyfyngu i'r bobl sy'n gofalu am y claf, gan gynnwys ysgrifenyddion meddygol. Weithiau bydd angen i weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal cleifion gael mynediad at y nodiadau, ond bydd hyn ond yn digwydd gyda chaniatâd penodol y meddyg.  Rydym yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Diogelu Gwybodaeth, GDPR ac Egwyddorion Caldicott o ran defnyddio gwybodaeth.

## Deddf Defnyddio Gwybodaeth 2000

Mae ceisiadau am wybodaeth am gleifion yn dod atom am ystod eang o bwrpasau gan gynnwys addysg, ymchwil, monitro, epidemioleg, goruchwylio iechyd cyhoeddus,  awdit clinigol a chynllunio. Dim ond lle mae'n hanfodol ar gyfer y pwrpas y bydd cofnodion sy'n cynnwys enwau cleifion yn cael eu datgelu. Bydd cynlleied o ddatgelu gwybodaeth â phosibl. Mae gennych hawl i wrthod unrhyw ddatgeliad a bydd eich dewis yn cael ei barchu.

## Tegwch ac Amrywiaeth

Mae Meddygfa Newydd Stryd y Capel yn ymdrechu i sicrhau tegwch a chydraddoldeb i'n holl gleifion a staff ac nid ydym yn gwahaniaethu ar sail rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol (gan gynnwys partneriaethau sifil), hil, tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu oed. Bydd yr holl gleifion a staff yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.

Cysylltwch â Rheolwr y Feddygfa os oes unrhyw bryderon gennych fod materion Tegwch ac Amrywiaeth heb gael eu parchu.

## Adeilad y Feddygfa

Mae gan adeilad y feddygfa fynediad i bobl anabl ac yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

## Hygyrchedd

Mae taflen wybodaeth ein meddyfa ar gael ar ffurf print mawr ac mae copi ar gael o'n gwefan.

## Cwynion

Rydym bob amser yn falch o glywed canmoliaeth gan gleifion ac awgrymiadau ar gyfer gwella ein gwasanaethau. Rydym yn gobeithio na fydd gennych achos i gwyno am rywbeth difrifol, ond os oes gennych gwyn, mae **Gweithdrefn Cwynion** gennym er mwyn ceisio datrys eich problem yn gyflym. Bydd y Feddygfa'n ymdrechu i ymdrin â'ch cwynion mewn modd trefnus ac effeithlon.

Cewch lawrlwytho copi o'n Gweithdrefn Cwynion o'n gwefan, neu mae copi ar gael gan ein staff derbynfa. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses ar gyfer ymdrin â chwyn ffurfiol. Os ydych eisiau trafod unrhyw bwynt uchod, cysylltwch â ni i wneud apwyntiad i weld Rheolwr y Feddygfa.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Ysbyty Sant Cadog
Ffordd y Lodge
Caerllion
Casnewydd
NP18 3XQ

E-bost: abhb.enquiries@wales.nhs.uk
Ffôn: 01633 436700

GIG CYMRU NHS WALES

Dewis doeth Choose well